

## **Gwirfoddolwr Cartref Gofal – Proses galwadau dilynol**

Defnyddiwyd hwn ar alwad ffôn i ddarpar wirfoddolwr, ar ôl i'w ffurflen gais gael ei dychwelyd atom.

Mae'n bwysig cofio mai proses ddwyffordd yw hon ac mae'n ymwneud cymaint â'r gwirfoddolwr yn penderfynu a ydynt yn hoffi'r sefydliad, ag am y sefydliad yn penderfynu ymgymryd â'r gwirfoddolwr. Bydd proses gyfweled ddelfrydol yn adlewyrchiad o'r ddau.

### **Fformat y cyfweled anffurfiol.**

Yn ogystal ag amlinellu rôl y gwirfoddolwr, dylech ddarparu rhywfaint o wybodaeth gefndirol am eich sefydliad neu grŵp. Aethom i fwy o fanylder am hyn yn y cyflwyniad sefydlu, a gynhaliwyd dros Zoom, yn ddiweddarach yn y broses (cytunwyd ar ddyddiad yn y cyfarfod hwn).

### **Yn ystod yr alwad hon, trafodwyd yn fyr:**

- disgrifiad y rôl
- hyfforddiant a chymorth a gynigir i wirfoddolwyr
- sut y bydd y gwirfoddolwr yn cael ei gefnogi yn ei rôl
- ein disgwyliadau o wirfoddolwyr
- y dyddiau a'r amseroedd sydd ar gael. Os oes terfyn amser ar y rôl.
- adnoddau sydd ar gael i wirfoddolwyr tra byddant yn gwirfoddoli gyda ni.

### **Efallai y byddwch am i'r darpar wirfoddolwr ddweud wrthy:**

- beth sy'n eu denu i wirfoddoli gyda'ch sefydliad neu i gymryd rhan yn y math hwn o weithgaredd
- yr hyn y maent yn gobeithio ei ennill drwy wirfoddoli
- sgiliau, diddordebau a phrofiad perthnasol
- argaeledd amser
- unrhyw anghenion cymorth ychwanegol
- enwau canolwyr posibl; os nad yw yn y ffurflen gais

- pryd y byddent yn gallu dechrau gwirfoddoli, neu ddechrau unrhyw hyfforddiant gofynnol.

Os bydd o dan 18 oed, sicrhewch eich bod yn gofyn am gydsyniad rhiant 16-17  
(cydsyniad rhieni?) 18 +

Os yw o dan 18 oed, gwiriwch fod y lleoliad hwnnw'n hapus i'w dderbyn ac a yw'r brechlynnau'n gyfredol mewn canllawiau o ran protocol cartrefi gofal.

Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd -esbonio bod angen gwneud un a bydd dolen yn cael ei hanfon i gwblhau'r gwiriad ar-lein.

Anfon dolen i gadarnhau pa ddogfennau y gellir eu defnyddio ar gyfer gwiriad adnabod

Gwirio'r gallu i fynychu hyfforddiant ar-lein: Zoom, Teams, ayb

Cytunwch, unwaith y derbynnir tystlythyrau a bod gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'i lenwi, y byddwch yn cysylltu â nhw i gwblhau hyfforddiant sefydlu ar-lein. Gellir trafod dyddiad posibl ar gyfer hyn.

Ar ddiwedd y cyfweiliad gwiriwch a oes gan y gwirfoddolwr unrhyw gwestiynau ychwanegol.

Diolch am eu hamser a byddwch yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt drwy gydol y broses. Dylent wirio eu ffolder e-bost sothach o bryd i'w gilydd gan y gall e-byst fynd yno.